Aberdaron

Am ei maint mae Aberdaron yn cynnig nifer o wasanaethau, yn cynnwys gwestai, llefydd i fwyta, siop bapurau newydd, siop groser, becws, swyddfa'r bost a siop anrhegion.

Mae'r prif faes parcio yng nghanol y pentref, ac yma mae *Porth y Swnt* canolfan ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n cynnig lle da i chi ddarganfod mwy am yr ardal leol.

Am fwy o wybodaeth am y pentref gwelwch
www.aberdaronlink.co.uk

Aberdaron

Although small, the seaside village of Aberdaron offers many amenities, from hotels, places to eat, a newsagent and a grocery store to a bakery, post office and a gift shop.

The main car park is located in the centre of the village, along with the National Trust visitor centre *Porth y Swnt,* which provides a good place to find out more about the local area.

For more information on the village see
www.aberdaronlink.co.uk

Aberdaron → Mynydd Mawr

Mae'r llwybr yma'n un eithaf byr, sy'n mynd a chi i ben Mynydd Mawr ac yn ôl i lawr i Aberdaron.

Pellter: 7 milltir

Amser: 1 awr o feicio

Lefel o anhawster: Cymedrol
Mae'r llwybr yma'n un weddol fyr, ond tydi'r llethr serth i gopa Mynydd Mawr ddim yn hawdd. Gallwch wrth gwrs wthio'r beic i fyny'r allt os ydi o rhy anodd!

UCHAFBWYNTIAU

Mynydd Mawr ★

Mae yno olygfeydd bendigedig ym mhob cyfeiriad o ben Mynydd Mawr. Allan i'r môr am Ynys Enlli, ar hyd yr arfordir i lawr i Fae Ceredigion neu i'r dwyrain tuag at Eryri- lle perffaith i gael gorffwys ar ôl gweithio eich ffordd i fyny'r allt serth i'r copa. Ar ddiwrnod clir mi allwch weld yr holl ffordd drosodd i Iwerddon. Mae Uwchmynydd yn le da i weld nifer o rywogaethau prin, yn cynnwys cen eurwallt, côr rhosyn y graig neu'r bran coesgoch, sydd yn rhan o deulu'r brain ond yn wahanol i'w berthnasau mae ganddo big a choesau coch.

© RSPB

Cwrt ★

Mae Cwrt erbyn heddiw yn cael ei defnyddio fel swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac uned prosesu crancod sy'n cael eu glanio ym Mhorth Meudwy. Roedd yn arfer cael ei alw'n Cwrt Abad oherwydd bod mynachlog Enlli, a'r holl eiddo ar y tir mawr yn cael eu rheoli o Gwrt. Fel mae'r enw'n awgrymu, dyma le'r oedd dedfrydau'n cael eu pasio, ac roedd Cae'r Grocbren yn cael ei ddefnyddio fel man amlwg i grogi pobl fel rhybudd i weddill y gymuned. Roedd y garreg sydd heddiw yn yr iard yng Nghwrt yn arfer cael ei defnyddio fel llwyfan i sefyll arno wrth basio'r dedfrydau.

Porth Meudwy ★

Yn y gorffennol y porth bychan yma oedd man croesi'r pererinion i Enlli. Mae'r porth yn cael ei ddefnyddio heddiw gan bysgotwyr yr ardal ac yma mae'r cwch sy'n mynd ag ymwelwyr am dripiau i Enlli yn lansio. Am fwy o wybodaeth am y tripiau i Enlli gwelwch y safle we
www.aberdaronlink.co.uk

This relatively short route takes you up to the summit of Mynydd Mawr, and back down into the village of Aberdaron.

Distance: 7 miles

Time: 1 hour cycling time

Difficulty: Moderate
This route is relatively short, however the ascent to the top of Mynydd Mawr isn't easy. There's always the option of pushing your bike up to the top!

ROUTE HIGHLIGHTS

Mynydd Mawr ★

The summit of Mynydd Mawr provides spectacular views in all directions. From Bardsey Island out to sea, along the coastline down Cardigan Bay and back inland towards Snowdonia, it's an idyllic place to rest after the steep ascent to the top. On a clear day you can even see all the way across to Ireland. Uwchmynydd is a great place to see a number of rare species, including golden hair lichen, spotted rock rose and the chough which you can distinguish from its relatives in the crow family by its red beak and legs.

Cwrt ★

© National Trust

Cwrt, now used as National Trust offices and a crab processing unit was previously known as the Abbots court. This was because Bardsey's monastery and all its properties on the mainland were managed from Cwrt. As the name suggests, this is where sentences and punishments for crimes were decided, and Cae'r Grocbren (Gallows field) was where people were hanged for their crimes. It is thought that the stone which can be seen on the courtyard at Cwrt was used as a platform by officials who would stand on it to pass sentence.

Porth Meudwy ★

The fishing cove of Porth Meudwy was once the place of departure for pilgrims making their way across to Bardsey. Today the cove is used by local fishermen and as a launching point for day trips to Bardsey Island. For more information on trips to Bardsey visit **www.aberdaronlink.co.uk**

© National Trust

LLWYBR FEICIO
ABERDARON
MYNYDD MAWR
CYCLE ROUTE



Croeso Cymru
Visit Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ALLWEDD / KEY

Parcio	P	Parking	
Canolfan gwybodaeth tymhorol	i	Seasonal information centre	
Canolfan ymwelwyr	V	Visitor centre	
Hurio beiciau		Bike hire	
Llwybr beicio		Cycle route	
Cyfeiriad beicio		Cycling direction	
Nodweddion arbennig	1	Special features	
Man cloi beic		Bike locking point	
Gwylfan		Viewpoint	
Bwyd		Food	
Safle picnic		Picnic site	
Tafarn		Public house	
Gwersyll		Camping	
Maes carafanau a gwersyll		Camping and caravan	

LLWYBR 1

1. Ar ôl croesi'r bont yng nghanol y pentref, trowch i'r chwith i fyny'r allt gan ddilyn arwydd Porthor.
2. Ar ôl tua 0.5 milltir trowch i'r chwith yn y gyffordd gyntaf gan ddilyn yr arwydd am Uwchmynydd.
3. Parhewch ar hyd y lôn yma am 1.5 milltir sy'n arwain chi dros y grid gwartheg at waelod y bryn.
4. Dilynwch y lôn i fyny tuag at Fynydd Mawr, lle gwelwch y cwt gwylwyr y glannau a chewch orffwys am ychydig ar ôl yr ymdrech i fyny'r allt!
5. Ar y ffordd yn ôl dilynwch yr un lôn i lawr i waelod yr allt gan groesi'r grid gwartheg unwaith eto.
6. Tua 1 milltir ar ôl y grid gwartheg trowch i'r dde wrth gyffordd sydd ar allt hefo bythynnod gwyn ar eich chwith.
7. Dilynwch y lôn cul yma am 0.75 milltir nes i chi gyrraedd cyffordd arall, a throwch i'r chwith.
8. Ar ôl 0.75 milltir arall fe gyrhaeddwch Gwrt ar eich chwith. Parhewch am 0.5 milltir arall ac yna trowch i'r dde yn y gyffordd.
9. Dilynwch y lôn nes i chi gyrraedd y gyffordd nesaf, gan droi i'r dde a dilyn y lôn am 0.5 milltir yn ôl i lawr i Aberdaron.

ROUTE 1

1. After crossing the bridge in the centre of the village, turn left up the hill out of Aberdaron following the sign for Porthor.
2. After approximately 0.5 miles turn left at the first junction signposted Uwchmynydd.
3. Continue along this road for approximately 1.5 miles, which will lead you up to a cattle grid as you approach the foot of the hill.
4. Follow the road up to the top of Mynydd Mawr, where you will see the coastguard hut and have earned a well deserved rest!
5. On the way down follow the same route back to the bottom of the hill, crossing the cattle grid again.
6. Approximately 1 mile after the cattle grid turn right at a junction on an uphill slope immediately after passing a number of white cottages on your left.
7. Follow this narrow lane for approximately 0.75 miles until you reach the next junction, turning left.
8. After 0.75 miles you will pass Cwrt on your left, and after another 0.5 miles will reach a junction where you should turn right.
9. After a short distance turn right at the junction following the sign for Aberdaron which is approximately 0.5 miles down the hill back to where you started.